

DIWEDDARIAD PWYSIG

Yn ystod pandemig y Coronafeirws, mae yna weithdrefnau newydd. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus gan ei fod yn disodli rhywfaint o'r wybodaeth arferol ar ein gwefan.

Mae'r meddygfeydd ar gau i gleifion alw i mewn. Mae'n rhaid i chi beidio â mynychu heb gael eich gwahodd.

Apwyntiadau gyda Meddyg Teulu

Mae'r llinellau ffôn ar agor am 8am er mwyn i gleifion ofyn am alwad brysbennu gyda meddyg. Mae nifer cyfyngedig o apwyntiadau ar gael bob dydd. Rydym hefyd yn gallu cynnig ymgynghoriadau fideo a'r gallu i anfon lluniau drwy neges destun, sy'n golygu y gellir delio â'r rhan fwyaf o faterion o bell.

Os yw'r meddyg eisiau eich gweld wyneb yn wyneb ar ôl yr alwad brysbennu, bydd yn rhoi amser i chi fynychu'r feddygfa. Bydd yr holl apwyntiadau wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Iechyd Llai. Cnociwch ar y drws ar amser eich apwyntiad ac arhoswch am aelod o'r tîm.

Apwyntiadau gyda Nyrsys

Mae'r rhan fwyaf o apwyntiadau nyrsys bellach yn digwydd dros y ffôn lle bo modd. Rydym yn dal i weithredu clinig babi, clinig imiwneiddio, clinig INR, apwyntiadau ar gyfer pigladau hormonau a phroffion ceg y groth (profion brys yn unig). Byddwch yn cael eich ffonio cyn eich apwyntiad i gael eich sgrinio am symptomau Covid-19. Peidiwch â mynd os gwelwch yn dda os ydych yn symptomatig neu yr ydych yn hunan-ynysu.

Presgripsiynau

Cewch gyflwyno eich ceisiadau am bresgripsiynau i'r fferyllwyr yn Llai, Gresffordd a'r Orsedd, neu drwy'r drws yng Nghanolfan Iechyd Llai. Peidiwch â phostio presgripsiynau yng Nghanolfan Iechyd Gresffordd. Mae'r blwch post bellach wedi'i selio.

Mae rhaid i chi enwebu fferyllydd i anfon eich presgripsiwn ato. Ni allwch gasglu eich presgripsiwn o'n meddygfeydd yn unol â chanllawiau diweddar Llywodraeth Cymru.

Gallwch archebu presgripsiynau ar-lein drwy gofrestru am wasanaeth Fy Iechyd Ar-Lein. Mae manylion ar gael ar ein safle.

Cleifion dosbarthu

Gall cleifion gasglu eu presgripsiynau o Feddygfa'r Orsedd o 9.00yb i 5.00yp (ar gau am ginio rhwng 12.30yp a 1.30yp) ar Ddydd Llun, Dydd Mercher a Dydd Gwener, ac o 9.00yb i 12.30yp ar Ddydd Mawrth a Dydd Gwener.

Yn olaf, mae ein llinellau yn eithriadol o brysur ac mae'r staff yn gwneud eu gorau glas. Diolch i bob un o'n cleifion am eu dealltwriaeth.